



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

Ynni Cymunedol Cymru

Rheolwr Datblygu a Gweithredu

Yn atebol i:- Bwrdd YCC

Rheolwr:- Cyfarwyddwr Gweithredol

Lleoliad: Swyddfa yng Nghaerdydd, ond yn agored i ddewisiadau hyblyg o ran lleoliad gwaith

Tâl - £30,000 - £33,000 yn ddibynnol ar brofiad (Llawn amser)

Bwriad Ynni Cymunedol Cymru yw gosod prosiectau ynni cynaliadwy wrth galon cymunedau yng Nghymru. Mae cymunedau'n gallu dod yn gryfach, yn fwy gwydn ac yn hunan gynhaliol drwy gynhyrchu ynni eu hunain, ei ddefnyddio'n effeithlon a defnyddio'r incwm i adnewyddu eu cymunedau.

Bydd Ynni Cymunedol Cymru yn creu'r newid hwn drwy ysbrydoli, grymuso a dylanwadu ar bobl, polisïau ac ymarfer ledled Cymru. Rydym yn dod â rhwydwaith o ymarferwyr ynghyd sy'n gweithio gyda chymunedau ac o fewn cymunedau yng Nghymru i ddatblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni. Rydym yn llais i gymunedau sydd eisiau gweithredu heddiw, ac rydym yn darparu'r cymorth addysgol, ymarferol ac ariannol i alluogi cymunedau i berchen ar osodiadau ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni a/neu eu gweithredu.

Prif ddiben y swydd:

Mae Ynni Cymunedol Cymru'n chwilio am unigolyn egniol i fod yn rhan greiddiol o ddatblygu'r sefydliad a'r sector gan ein galluogi ni i ymestyn ein gweithgarwch at wres, effeithlonrwydd ynni a thrafnidiaeth. Bydd y rôl yn cefnogi prosiectau YCC ac yn chwilio am brosiectau newydd i'w datblygu mewn partneriaeth â'n haelodau. Mae'r swydd yn gofyn am sgiliau rheoli, profiad o godi arian, menter, sgiliau pobl rhagorol ac angerdd gwirioneddol ar gyfer ynni adnewyddadwy, cynaliadwyedd a datblygiad cymunedol. Bydd y rôl â chyfrifoldebau rheolwr llinell am dîm bychan o bobl yn gweithio ar draws ystod o brosiectau. Bydd y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg o fudd.



Cyfrifoldebau'r swydd:

- Gweithio'n rhagweithiol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gyflawni bwriadau YCC ar amser, o fewn y gyllideb ac i safon uchel
- Rheoli llinell am dîm bychan o staff
- Hybu cenhadaeth, bwriadau a gweithgarwch Ynni Cymunedol Cymru yn ôl y gofyn a chynrychioli'r sector gyda rhanddeiliaid allweddol
- Rheoli a chyflawni prosiectau y mae YCC yn gweithio arnynt megis ein prosiectau rhannu perchnogaeth, prosiectau'r gweithgor effeithlonrwydd ynni a chefnogi datblygiad a thwf y prosiect clybiau ceir.
- Darganfod cyfleoedd ariannu a busnes newydd a'u datblygu. Yn benodol, gweithio gydag aelodau i ddatblygu cyfleoedd ym meysydd effeithlonrwydd ynni, gwres, trafndiaeth a meysydd eraill sy'n perthyn i ynni a sero net.
- Cynnal digwyddiadau Ynni Cymunedol Cymru sy'n hybu cyfleoedd i rai sydd â diddordeb mewn cefnogi'r sector.
- Cefnogi egwyddorion ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel a manylir ym Mholisiâu YCC.
- Dilyn polisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch YCC a sicrhau eich bod yn gweithio'n ddigoel.

Cymwysterau

Yn ddelfrydol gyda gradd neu gyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol neu brofiad cyfwerth. Bydd cymwysterau/hyfforddiant rheoli prosiectau yn fantais.

Sgiliau Hanfodol

- O leiaf 3 mlynedd o brofiad mewn swydd rheoli prosiect debyg.
- Sgiliau trefnu ardderchog a'r gallu i ddefnyddio menter ac addasu.
- Gwybodaeth dda o'r amgylchedd polisi yng Nghymru a'r DU mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy ac ynni o dan berchnogaeth gymunedol.
- Dealltwriaeth dda o'r sector ynni yn cynnwys o leiaf 1 o'r canlynol; ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a gwres.
- Profiad o weithio ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.
- Profiad o reoli tîm bychan.
- Hwylsychyd gwyb sy'n gallu sicrhau ymgysylltu ystyrlon gyda chanlyniadau clir.
- Sgiliau ysgrifennu a chyflwyno arbennig a'r gallu i ddrafftio a chyflwyno gohebiaeth ac adroddiadau.
- Y gallu i feddwl yn greadigol ac i adnabod a manteisio ar gyfleoedd.
- Profiad o ysgrifennu ceisiadau llwyddiannus a chyflawni rhaglen wedi'i hariannu



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

- Cydweithiwr agored, cadarnhaol sy'n gweithio'n dda mewn tîm a sydd â'r cymhelliant i weithio'n annibynnol
- Profiad o gynnal digwyddiadau, cyfarfodydd neu seminarau/cynadleddau a'u trefnu a'u rheoli.
- Diddordeb a brwdfrydedd gwirioneddol ar gyfer gweithio i gefnogi ynni cymunedol a chynaliadwyedd.
- Yn barod i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd ac aros dros nos i ffwrdd o adref gyda rhybudd o flaen llaw.
- Trwydded yrru lawn a'r gallu i ddefnyddio eich car eich hun at ddibenion gwaith.

Sgiliau dymunol

- Profiad da o weithio ym maes ynni adnewyddadwy.
- Profiad o gefnogi prosiectau ynni cymunedol.
- Profiad o gefnogi prosiectau gwres, trafndiaeth neu effeithlonrwydd ynni cymunedol.
- Profiad o ddatblygu a chyflawni modelau busnes cynaliadwy.
- Profiad o weithio yn y trydydd sector.
- Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.